# Grŵp A

Fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol: grŵp A

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 November 2023

Diweddariad olaf: 13 November 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/grwp-a am y fersiwn diweddaraf.

**[Gweler disgrifiad o'r grŵp hwn yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.]**

## Trosolwg

Mae ymarferwyr Grŵp A **i gyd** yn staff sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliad neu asiantaeth sector cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- y rhai mewn lleoliadau sector preifat
- gwirfoddolwyr
- aelodau etholedig awdurdodau lleol.

Y cymhwysedd ar gyfer y grŵp hwn yw i bob ymarferwr a gwirfoddolwr:

- feddu ar ddealltwriaeth am ddiogelu
- wybod beth sydd angen iddyn nhw, ac eraill, ei wneud
- wybod eu cyfrifoldeb i rannu pryderon am niwed, cam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu bosibl.

Dylid cwblhau hyfforddiant Grŵp A cyn hyfforddiant ar gyfer y grwpiau eraill, oni bai bod cynnwys llawn hyfforddiant grŵp A wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant a ddarperir mewn ffyrdd eraill.

**Egwyddorion cofiadwy**

- Rydw i'n gwybod beth mae'r term diogelu yn ei olygu.
- Rydw i'n gwybod beth i gadw llygad amdano.
- Rydw i'n gwybod pwy i'w hysbysu.

**Yn ôl y safonau, dylai pobl yng ngrŵp A wybod**:

- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- am y ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- sut i hysbysu, ymateb a chofnodi pryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

## Canlyniadau dysgu

**Gellir cyflawni canlyniadau dysgu mewn un modiwl neu sesiwn**.

Ar ddiwedd gweithgaredd dysgu, fe fyddan nhw’n:

- gallu esbonio'r term 'diogelu'
- adnabod camdriniaeth, neu risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod bod ganddynt ddyletswydd i hysbysu am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud os ydynt yn dyst i neu’n amau camdriniaeth, niwed neu esgeulustod neu os bydd rhywun yn dweud wrth yr ymarferydd eu bod yn cael eu cam-drin.

## Hyfforddiant, dysgu a datblygu

- Rhaid safoni deunyddiau hyfforddi Grŵp A.
- Gellir darparu cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu wyneb yn wyneb fel bod pob ymarferwr yn cael hyfforddiant diogelu. (Mae gan rai meysydd gwaith

fynediad cyfyngedig neu ddim mynediad i hyfforddiant ar-lein.)

Nid yw e-ddysgu yn rhoi llawer o gyfleoedd ar gyfer gwaith aml-asiantaeth neu drafodaeth.

Ond, oherwydd y dylai hyfforddiant grŵp A fod yn codi ymwybyddiaeth gyffredinol, mae'r modiwl e-ddysgu yn addas ar gyfer y grŵp hwn.

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael ar ein gwefan:

**Modiwl e-ddysgu diogelu Grŵp A – Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio i:

- gofal cymdeithasol
- gofal iechyd
- adrannau awdurdodau lleol
- addysg
- blynyddoedd cynnar a gofal plant
- y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- contractwyr annibynnol (gwasanaethau a gomisiynir)
- y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys gwirfoddolwyr
- sefydliadau cyfiawnder troseddol, fel yr heddlu a gwasanaethau prawf.

## Pethau i'w hystyried

Mae'r e-ddysgu wedi'i gynllunio i adlewyrchu'r wybodaeth a'r cymhwysedd y dylai fod gan ymarferwyr grŵp A. Mae'n cynnwys:

- senarios achos lle gall fod pryderon diogelu, a sut i ymateb

- cwestiynau neu asesiadau sylfaenol wedi'u hintegreiddio trwy gydol y modiwl i brofi faint y mae'r dysgwr wedi’i ddeall
- fideos, yn dangos straeon ac enghreifftiau o ddiogelu
- cyfle i'r dysgwr roi adborth am y modiwl.

## Faint o hyfforddiant, dysgu a datblygu?

- Mae angen i ymarferwyr grŵp A newydd gwblhau'r modiwl e-ddysgu cyn dechrau eu rôl, neu fel rhan o'u cyfnod sefydlu.
- Mae’r modiwl e-ddysgu bob amser ar gael, a gallant ei ddefnyddio’n hyblyg fel eu bod yn hyderus yn eu rôl a’u cyfrifoldebau.
- Os byddant yn aros yng ngrŵp A, bydd angen iddynt loywi eu dysgu:
    - **o leiaf** un i dair awr bob tair blynedd
    - pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion diogelu
    - yn amlach os oes angen gan eu rheolwr neu asiantaeth.
- Bydd e-ddysgu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) yn ddwy awr ar y mwyaf.